



YSGOL GER Y LLAN ADEILAD NEWYDD

Pensaer: Cyngor Sir Penfro &
Lewis Design Partneriaeth

Contractwr: WB Griffiths & Sons

Cost: £3,745,662

Ffynonellau Cyllid: Cyngor Sir Penfro
Llywodraeth Cymru

Disgrifiad o'r Cynllun:

Mae'r ysgol newydd wedi'i lleoli ar safle'r ysgol bentref bresennol, a ddymchwelwyd fel rhan o waith y prosiect. Roedd penseiri a pheirianyddion Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am y gwaith o ddatblygu cysyniadau cychwynnol, lle cytunwyd ar y cynllun gyda'r cleient. Yna aeth *Lewis Design Partnership* a *Bullock Consulting* ati i weithio ar y cynlluniau cychwynnol a amlinellwyd gan Gyngor Sir Penfro er mwyn datblygu'r manylion. Mae prif fynedfa'r adeilad a'r dderbynfa mewn man canolog. Y bwriad oedd gwneud hon yn fynedfa groesawgar a chyfeillgar, gyda nenfydau uchel a llawer o olau naturiol. Mae'r man hwn yn rhan allweddol o'r ysgol newydd gan y bydd yn diffinio canfyddiad defnyddwyr / ymwelwyr o'r adeilad.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod hwn yn fan golau, lliwgar a bywiog, y bydd yr holl weithgareddau eraill yn cael eu dosbarthu o'i gwmpas. A dweud y gwir, gwneir y mwyaf o olau naturiol ym mhob man rhan o'r adeilad trwy ddefnyddio ffenestri to lefel uchel. Mae'r ffenestri to hyn hefyd yn cynorthwyo i ddarparu awyriad naturiol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau. Mae blas cyfoes wedi cael ei roi i'r naws draddodiadol hon, trwy gyflwyno arddull ffenestri, colofnau a nodwedd wal tebyg i 'fwtres' ar yr ochrau gorllewinol. Unwaith eto, trwy ddefnyddio nifer o elfennau gwydriad yn y to, mae'r adeilad yn dod yn llawer mwy cyfoes a modern. Roedd yr angen i gael golau naturiol yn treiddio i fannau mewnol yr adeilad o'r pwys mwyaf yn athroniaeth y cynllun, ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn adeiladau tebyg mewn mannau eraill yn y Sir. Ochr orllewinol yr adeilad yw'r ochr nodwedd yn sicr, gyda nodweddion yn lleihau tuag at yr ochr ddwyreiniol, lle nad ydynt mor amlwg.

Cwblhawyd: Ebrill 2012



Mae'r adeilad yn cynnwys offer diogelwch, a dulliau o arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithlon, fel:-

- *System chwistrellu*
- *System awyru naturiol gyda ffenestri to ym mhob ystafell ddosbarth*
- *Unedau goleuo tra effeithlon*
- *Boeleri ynni-effeithlon*
- *Uned CHP (Gwres a Phŵer Cyfunedig)*
- *Mae 20% o ddefnyddiau'r adeilad wedi cael eu hailgylchu*
- *Gradd BREEAM 'Rhagorol'*
- *Mae'r defnydd inswleiddio wedi'i wneud o boteli gwydr ailgylchedig*